**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi – Cofnodion y cyfarfod – 13 Hydref 2022**

**Yn bresennol:**

John Griffiths AS (Cadeirydd)
Steffan Evans – Sefydliad Bevan (Ysgrifenyddiaeth)
Altaf Hussain AS
Huw Irranca-Davies AS
Peredur Owen Griffiths AS
Carolyn Thomas AS
Bethan Webber – Home Start Cymru
Izzabella James – Home Start Cymru
Abigail Rees – Cymorth Cymru
Ben Saltmarsh – National Energy Action
Andrew Bettridge – Swyddfa John Griffiths AS
Cath Lewis – Gofalwyr Cymru
Catherine Rees – Achub y Plant
Ryland Doyle – Swyddfa Mike Hedges AS
Duncan Holtom – Pobl a Gwaith
Elinor Mattey – Sefydliad Bevan
Fadhilah Gubari – Oxfam Cymru
Eleri Griffiths – Swyddfa Heledd Fychan AS
Jessica Blair – Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
Billy Jones -
Karen Davies – Purple Shoots
Karen McFarlane – Plant yng Nghymru
Kathryn Newman – Grŵp Gweithredu Tlodi Plant
Tom Livesey – Ymchwilydd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig
Gareth Llewellyn – Plaid Cymru
Mandy Powell – Cymorth Cymru
Kiera Marshall – Grŵp Plaid Cymru
Dan Rose –
Sharon Atkins – Ffydd mewn Teuluoedd Cymru
Shah Alom Shumon – Swyddfa John Griffiths AS
Susan Lloyd Selby – Ymddiriedolaeth Trussell
Akbar Twahida – Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru

**Cofnodion y cyfarfod**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol, gan nodi pam fod y pwnc o dan sylw yn un mor amserol. Yn ei sylwadau rhagarweiniol:

    a. Nododd ei gred fod dylunio system nawdd cymdeithasol sy’n gweithredu'n dda nawr yn bwysicach nag erioed.

    b. Nododd ei fod yn destun rhwystredigaeth iddo fod llawer o’r ysgogiadau sydd ar gael i ymdrin â thlodi yn nwylo llywodraeth y DU ac nad yw’r rhain yn cael eu defnyddio’n effeithiol.

c. Cyflwynodd y ddadl y gallai mwy cael ei wneud i roi terfyn ar tlodi pe bai gan Lywodraeth Cymru fwy o lais ynghylch sut mae'r system nawdd cymdeithasol yn gweithredu yng Nghymru.

d. Rhoddodd grynodeb i'r aelodau o'r gwaith a wnaeth fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn y pumed Senedd ar y materion hyn. Daeth y pwyllgor i'r casgliad y byddai'n well pe bai pwerau dros weinyddu budd-daliadau yn cael eu datganoli i Gymru.

e. Nododd fod argymhellion y Pwyllgor wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru a bod yr angen i osod y gwaith sylfaen ar gyfer unrhyw newidiadau posib yn y dyfodol yn bwysicach nag erioed.

2. Ar ôl gorffen ei sylwadau rhagarweiniol, cyflwynodd y Cadeirydd siaradwr cyntaf y sesiwn, sef Dr Steffan Evans, Pennaeth Polisi (Tlodi) Sefydliad Bevan.

3. Rhoddodd Steffan gyflwyniad byr i'r aelodau yn amlinellu beth mae Sefydliad Bevan yn ei olygu wrth y term "Budd-daliadau Cymreig" a pham eu bod yn teimlo ei bod yn hollbwysig sefydlu System Fudd-daliadau i Gymru. Ymhlith y pwyntiau a wnaeth roedd:

   a. Er mai dim ond rhan fach o'r system nawdd cymdeithasol sydd wedi'i datganoli i Gymru, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros lu o grantiau a lwfansau prawf modd sy'n fudd-daliadau ym mhopeth ond enw. Mae'r grantiau a'r lwfansau hyn yn darparu arian parod neu gymorth mewn nwyddau i bobl, ac mae meini prawf cymhwysedd yn eu lle i gyfyngu ar bwy all fanteisio ar y cymorth. Mae enghreifftiau o gynlluniau o'r fath yn cynnwys Prydau Ysgol am Ddim, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

   b. Mae'r budd-daliadau amrywiol hyn yn darparu cymorth sylweddol i deuluoedd Cymreig. Yn y flwyddyn 2019/20, roedd Llywodraeth Cymru yn gwario £400m y flwyddyn ar y budd-daliadau Cymreig hyn. Roedd hyn yn fwy nag oedd yn cael ei wario ar y Lwfans Ceisio Gwaith a'r lwfans gwaith Credyd Cynhwysol gyda'i gilydd.

   c. Mae lle sylweddol i wella'r system hon. Amlinellodd Steffan fod pedair problem allweddol yn y system bresennol.

      i. Mae gan bob cynllun feini prawf cymhwyster gwahanol.

      ii. Mae'n rhaid gwneud cais ar wahân ar gyfer nifer o'r cynlluniau, sy'n ei gwneud hi'n anodd cael mynediad arnynt.

      iii. Nid yw gwerth y cymorth a gynigir bob amser yn ddigonol.

      iv. Mae rhai bylchau yn argaeledd y cymorth.

   d. Dylid dwyn ynghyd y grantiau a'r lwfansau amrywiol hyn i ffurfio system gydlynol o fudd-daliadau i Gymru.

4. Diolchodd John Griffiths i Steffan am ei gyflwyniad a symudodd ymlaen at yr ail eitem ar yr agenda drwy wahodd Bethan Webber ac Izzabella James ar ran Home Start Cymru i rannu eu syniadau ac i wneud cyflwyniad.

5. Bethan Webber oedd y cyntaf i siarad ar ran Home Start Cymru.

6. Dechreuodd Bethan ei chyflwyniad drwy roi trosolwg o waith Home Start Cymru, elusen cymorth i deuluoedd sy'n gweithredu ar draws 18 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Home Start yn rhwydwaith ffederal gyda phump chwaer-wasanaeth Home Start yn gweithio ledled Cymru. Mae gan Home Start rwydwaith o wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n cefnogi teuluoedd yn eu cartrefi ar sail un-i-un, lle maent yn cynnig amrywiaeth o gymorth wedi'i dargedu. Un maes lle mae Home Start yn cynnig cymorth yw cyllid y cartref a chyllid personol. Mae eu staff a'u gwirfoddolwyr yn gweld y gwaith hwn yn fwyfwy heriol ac mae'n cymryd mwy a mwy o amser staff. Mae gan Home Start ddiddordeb yn y cysyniad o System Fudd-daliadau i Gymru am y oherwydd hwn.

7. Trosglwyddodd Bethan yr awenau i Izzabella i ymhelaethu ar y materion a ddygwyd i'r golwg gan wirfoddolwyr Home Start.

8. Diolchodd Izzabella i Bethan a nododd mai ei bwriad oedd canolbwyntio ar pam mae Home Start yn teimlo bod dylunio System Fudd-daliadau i Gymru mor bwysig. Awgrymodd Izzabella fod unigolion ar hyn o bryd yn gorfod brwydro'u ffordd drwy system gymhleth, sy'n arwain at bobl yn colli'r cyfle i dderbyn cymorth. Rhoddodd nifer o enghreifftiau o deuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan Home Start yn wynebu heriau o ganlyniad:

    a. Derbyniodd Allison, sy'n fam i dri o blant, daliad o £326 yn ddiweddar ond nid oedd yn siŵr pam. Nid oedd hi'n ymwybodol ychwaith bod rhaid cofrestru i dderbyn Taliad Costau Byw Llywodraeth Cymru oni bai eich bod yn talu'r Dreth Gyngor drwy ddebyd uniongyrchol. Byddai Allison felly wedi bod ar ei cholled o ran gwahanol fathau o gefnogaeth oni bai am gymorth Home Start.

    b. Roedd tad a gefnogwyd gan Home Start wedi dechrau derbyn Credyd Cynhwysol yn ddiweddar oherwydd iddo orfod cymryd seibiant o'r gwaith. Roedd e'n ei chael hi'n anodd mantoli cyllid y cartref ac yn gorfod defnyddio banciau bwyd. Daeth Home Start i wybod ei fod wedi bod yn talu'r dreth gyngor yn llawn am 14 mis, er ei fod yn gymwys i gael y balans wedi'i dalu'n llawn o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Llwyddodd i adennill £1,300 drwy gymorth Home Start.

    c. Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn wynebu heriau sylweddol wrth geisio cael mynediad at gymorth, yn enwedig y teuluoedd nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg na'r Saesneg. Mae'r heriau hyn yn arbennig o sylweddol ar gyfer ceiswyr lloches, oherwydd yr ystod gyfyngedig o gymorth sydd ar gael iddyn nhw.

9. Daeth Izzabella â'i chyflwyniad i ben drwy amlinellu sut y gallai datblygu System Fudd-daliadau i Gymru sy'n gydgysylltiedig a gydag un pwynt mynediad fynd i'r afael â nifer o'r heriau hyn a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i deuluoedd Cymru. Trosglwyddodd yr awenau yn ôl i Steffan ar gyfer y cyflwyniad cloi.

10. Diolchodd Steffan i Bethan ac Izzabella. Roedd ei gyflwyniad olaf yn amlinellu sut y gallai System Fudd-daliadau i Gymru edrych. Dywedodd y dylai System Fudd-daliadau i Gymru, ymysg ei nodweddion allweddol:

    a. Ganolbwyntio ar aelwydydd incwm isel, wedi'u diffinio fel y rhai sy'n gymwys i dderbyn Credyd Cynhwysol;

b. Darparu arian parod neu gymorth mewn nwyddau sy'n ddigonol i wneud gwahaniaeth go iawn i incwm neu gostau aelwydydd;

c. Cynnal un man mynediad ar gyfer sawl budd-dal drwy ddefnyddio dulliau ar-lein, ar y ffôn neu drwy’r post;

d. Bod yn seiliedig, lle bo modd, ar gymhwysedd a hawl i gymorth yn hytrach na disgresiwn.

e. Trin pob ymgeisydd ag urddas a pharch.

11. Dywedodd Steffan fod yr awr wedi dod ar gyfer y syniad hwn a bod cefnogaeth wleidyddol sylweddol iddo. Nododd fod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o fewn Llywodraeth Cymru ar y syniad, sef yn enwedig y gwaith ar sefydlu Siarter Budd-daliadau Cymru, ond cododd bryderon y byddai hyn yn debygol o ddwyn ffrwyth ar ffurf canllawiau yn unig. Dywedodd y dylai unrhyw system gael ei rhoi ar sylfaen fwy cadarn.

12. I gloi, datgelodd Steffan fod Sefydliad Bevan a nifer o bartneriaid wedi comisiynu arbenigwyr allanol yn ddiweddar, sef Policy in Practice, i archwilio i’r rhwystrau posibl rhag gweithredu, fel y gellir datblygu datrysiadau a dylunio system fwy cydlynol.

13. Diolchodd y cadeirydd i Steffan, Bethan ac Izzabella am eu cyflwyniadau a chroesawodd cyfraniadau o’r llawr. Gofynnwyd ystod eang o gwestiynau, a chodwyd nifer o bwyntiau. Roedd y materion a ganlyn ymhlith y rhai a drafodwyd:

a. Bod natur gymhleth y system bresennol yn rhywbeth sy’n peri rhwystredigaeth i amrywiaeth o sefydliadau a theuluoedd ledled Cymru, a’i fod yn arwain at bobl yn colli allan ar gymorth y mae ganddynt hawl iddo.

b. Ydy cymhlethdod yn rhan gynhenid o unrhyw system nawdd cymdeithasol ac yn rhywbeth na ellid ei ddatrys hyd yn oed gyda chreu System Fudd-daliadau i Gymru?

c. Ydy’r syniad o greu System Fudd-daliadau i Gymru yn golygu datganoli rhagor o bwerau dros y system nawdd cymdeithasol i Gymru?

d. Sut byddai creu System Fudd-daliadau i Gymru yn ffordd o fynd i’r afael â gwendidau’r dull presennol o ymdrin â’r bylchau yn y cymorth sydd ar gael?

e. Ar hyn o bryd, mae rhai teuluoedd yn dewis peidio ceisio cefnogaeth oherwydd eu bod yn poeni am oblygiadau gwneud hynny o ran dyled ac ati. A fyddai creu un system unedig yn cynyddu’r risg na fyddai pobl yn gwneud cais am gymorth oherwydd eu bod yn poeni y byddai data’n cael ei rannu ar draws adrannau?

14. Nododd Steffan wrth ateb y cwestiynau:

a. Fod cymhlethdod yn gynhenid mewn unrhyw system sydd â rhywfaint o ddisgresiwn ynddi. Mae'n debygol y bydd rhesymau da i gadw rhai cynlluniau dewisol o fewn unrhyw system nawdd cymdeithasol, felly nid yw’n bosib dileu’r cymhlethdod yna yn gyfan gwbl. Dywedodd nad yw hyn yn golygu na allwch leihau cymhlethdod y system bresennol, fodd bynnag, yn enwedig o ran budd-daliadau sy’n seiliedig ar hawliau, a lleihau'n sylweddol nifer y ffurflenni cais y byddai rhaid i deuluoedd eu llenwi.

b. O safbwynt Sefydliad Bevan, prif ffocws eu gwaith ar System Fudd-daliadau i Gymru oedd gwneud i'r pwerau sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd i Gymru weithio'n well.

Nododd y byddai trafodaeth fwy gwybodus ynghylch datganoli pwerau pellach dros nawdd cymdeithasol i Gymru yn sgil-effaith defnyddiol o sefydlu System Fudd-daliadau i Gymru, ond nid dyma yw prif amcan gwaith y Sefydliad.

c. Byddai creu un System Fudd-daliadau i Gymru yn creu cyfle i adnabod yn well beth yw'r bylchau yn y cymorth sydd ar gael drwy "Fudd-daliadau Cymreig". Mae hyn yn anodd gwneud ar hyn o bryd, gan fod y cynlluniau mor wahanol, ond byddai eu tynnu at ei gilydd mewn un system yn rhoi cyfle i ganfod bylchau ac i ystyried ai creu cynllun newydd ynteu roi mwy o arian i mewn i gynllun sydd eisoes yn bodoli fyddai'r ateb i hwn.

d. Mae llawer o'r problemau o ran pobl yn peidio hawlio'r cymorth y maent yn gymwys amdano eisoes yn bodoli. Byddai creu system unedig o fudd-daliadau i Gymru yn rhoi cyfle i ddatrys rhai o'r rhain ac i fynd i'r afael â materion megis y broblem a nodwyd gan Izzabella o bobl yn wynebu ôl-ddyledion y Dreth Gyngor er eu bod yn gymwys am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

15. Yn ymateb i'r drafodaeth, nododd Bethan Webber mai nodwedd arbennig o'r argyfwng costau byw presennol yw bod yna grwpiau o bobl yn disgyn i dlodi neu'n syrthio i sefyllfa lle maent efallai yn ceisio cymorth ariannol am y tro cyntaf.

16. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a rhannodd rai sylwadau cloi. Wrth wneud hynny nododd y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r aelodau, dri cham gweithredu i'r grŵp i fynd ar eu trywydd:

    a. Bydd Steffan yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am gynnydd y gwaith a wneir gan Policy in Practice.

    b. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o fanylion am y gwaith y maent yn ei wneud ar Fudd-daliadau Cymreig.

    c. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan ei bwyllgor yn y Senedd flaenorol.

17. Daeth y cyfarfod i ben.